

Cynnig i sefydlu darpariaeth ar gyfer  
disgyblion sydd ag anghenion dysgu  
ychwanegol (ADY) yn Ysgol Gynradd  
Tremaen

## Dogfen ymgynghori

**Dyddiad cyhoeddi:** 10 Ionawr 2022

**Camau i'w cymryd:** Ymatebion erbyn 24 Chwefror 2022

**Ffôn:** (01656) 815253

**E-bost:** EDSU@bridgend.gov.uk

**Gwe:** <https://www.bridgend.gov.uk/cy>

## Cynnwys

|                                                                              |                                     |
|------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------|
| Trosolwg .....                                                               | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Sut i ymateb.....                                                            | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Diogelu data .....                                                           | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Dogfennau cysylltiedig.....                                                  | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Cefndir a gwybodaeth.....                                                    | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Y cynnig.....                                                                | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Pam mae'r cynnig hwn wedi ei gyflwyno? .....                                 | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Yr hyn y mae'r cynnig yn ei olygu yn ymarferol .....                         | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Beth yw'r manteision pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo?               | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Beth yw'r anfoneision posibl pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo? ..... | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Effaith y cynigion.....                                                      | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Asesiadau Effaith.....                                                       | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Y risgiau.....                                                               | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Dewisiadau eraill.....                                                       | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Manylion yr ysgol(ion) yr effeithir arnynt .....                             | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Cyllid.....                                                                  | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Y broses ymgynghori .....                                                    | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Ffurflen .....                                                               | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Atodiad A .....                                                              | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Atodiad B .....                                                              | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Atodiad C.....                                                               | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Atodiad D.....                                                               | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Atodiad E .....                                                              | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |
| Atodiad F .....                                                              | <b>Error! Bookmark not defined.</b> |

## Trosolwg

Diben yr ymgynghoriad yw gwahodd eich safbwyntiau ar y cynnig i sefydlu dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer uchafswm o wyth disgybl sydd ag anhwylderau'r sbectwm awtistig yn Ysgol Gynradd Tremaen.

## Sut i ymateb

Bydd y cyfnod ymgynghori hwn yn dechrau ar 10 Ionawr 2022 a bydd yn dod i ben ar 24 Chwefror 2022. Gallwch ymateb neu ofyn cwestiynau ychwanegol yn y ffyrdd canlynol.

**Ffôn:** (01656) 815253

**E-bost:** EDSU@bridgend.gov.uk

**Ar-lein:** [Cliciwch yma](https://www.bridgend.gov.uk/cy) neu ewch i <https://www.bridgend.gov.uk/cy>

**Post:** Y Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.

Mae fformatau eraill hefyd ar gael ar gais.

## Diogelu Data

Sut yr ydym yn defnyddio'r safbwyntiau a'r wybodaeth yr ydych yn eu rhannu â ni.

Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu gweld yn llawn gan ei aelodau staff sy'n rhan o'r broses ymgynghori. Gallai adrannau eraill yn y Cyngor neu aelodau byrddau gwasanaethau lleol weld yr wybodaeth hefyd er mwyn helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir.

Gallai'r Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir i gyhoeddi dogfennau dilynol sy'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn hefyd, ond ni fydd y Cyngor byth yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol megis enwau neu gyfeiriadau a allai adnabod unigolyn.

Os nad ydych yn dymuno i'ch safbwyntiau gael eu cyhoeddi, nodwch hynny yn eich ymateb.

## Dogfennau cysylltiedig

I gael rhagor o wybodaeth am ymgynghoriadau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu ynghylch sut i ymuno â'n Panel Dinasyddion.

**Ewch**

**i:**

<https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/ymgynghoriadau/panel-y-dinasyddion/>

## **Cefndir a gwybodaeth**

- Mae awdurdodau lleol ledled y Deyrnas Unedig yn gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae'r gost o gefnogi hyn yn uwch na'r gyllideb yn aml. Yn ogystal ag awgrymu bod yr anghenion hyn yn dod yn fwy niferus, mae tystiolaeth anecdotaidd gan lawer o awdurdodau lleol yn awgrymu eu bod yn dod yn fwy cymhleth.
- Mae hyn yn rhoi pwysau ar bob awdurdod lleol i ddiwallu'r anghenion hyn ac i ddarparu adnoddau ar eu cyfer, a dim ond cael ei waethygu y bydd hyn gan y pwysau ychwanegol a achosir gan COVID-19. Yn y cyd-destun hwn, mae llawer o gynghorau yn adolygu eu darpariaeth bresennol er mwyn ymateb i newidiadau yn y galw a gwneud gwasanaethau'n addas i'r diben o ran mynd i'r afael ag anghenion plant a phobl ifanc sydd ag ADY, yn awr ac yn y dyfodol.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi mynd ati'n rhagweithiol i ymdrin â hyn drwy gomisiynu adolygiad o'r ddarpariaeth cynllunio strategol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn 2020.
- Sefydlwyd Bwrdd Adolygu'r Ddarpariaeth Cynllunio Strategol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae un o'r meysydd a nodwyd ar gyfer darpariaeth ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant sydd ag anhwylderau'r sbectwm awtistig. Nodwyd bod angen agor dosbarth adnoddau dysgu ychwanegol ar gyfer plant sydd ag anhwylderau'r sbectwm awtistig. Mae'n nodi yn yr adolygiad yr argymhellid cael continwmm darpariaeth yn yr un ysgol, lle gall plant symud o ddosbarthiadau arsylwi ac asesu i ddosbarth adnoddau dysgu, yn yr un ysgol os bodlonir meini prawf.

## **Y cynnig**

- Cynnig yw hwn i sefydlu darpariaeth ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gynradd Tremaen i ddiwallu anghenion disgyblion sydd â diagnosis o anhwylderau'r sbectwm awtistig; cynigir sefydlu dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer uchafswm o wyth disgybl.
- Bydd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau staff, rhieni, disgyblion, partïon sydd â diddordeb a'r corff llywodraethu yng nghan cyntaf y broses statudol. Os cefnogir y cynigion, byddent yn dod yn weithredol ar 1 Medi 2022.

## **Pam mae'r cynnig hwn wedi ei gyflwyno?**

- Codir y cynnig er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anhwylderau'r sbectwm awtistig. Mae angen agor adnoddau ychwanegol er mwyn diwallu anghenion disgyblion sydd â diagnosis o anhwylderau'r sbectwm awtistig yng nghlwstwr Brynteg.

## **Yr hyn y mae'r cynnig yn ei olygu yn ymarferol**

Pe byddai'n cael ei gymeradwyo, byddai'r cynnig yn golygu:

- Byddai dosbarth adnoddau dysgu yn Ysgol Gynradd Tremaen ar gyfer uchafswm o wyth disgybl sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn agor o 1 Medi 2022 ar ôl gwneud addasiadau i lety sydd eisoes yn bodoli.
- Byddai derbyniadau bob yn dipyn o 1 Medi 2022. Byddai derbyniadau dosbarth adnoddau dysgu yn cael eu penderfynu drwy banel derbyn a fyddai'n asesu angen y disgybl.
- Byddai'r dosbarth adnoddau dysgu yn rhan integredig o'r ysgol prif ffrwd, gan ddarparu amgylchedd priodol lle gall disgyblion ddatblygu a ffynnu yn eu grŵp cyfoedion a chael mynediad arferol at gwricwlwm prif ffrwd, pan fo hynny'n briodol.
- Byddai'r dosbarth adnoddau dysgu'n darparu cyfleusterau dysgu arbenigol yn yr ysgol; byddai hefyd yn darparu arbenigedd ar anhwylderau'r sbectrwm awtistig i ddosbarthiadau prif ffrwd.
- Mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddorion y dylid addysgu plant mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd ac mor agos at eu cartref â phosibl cyhyd ag y bo modd.
- Byddai'r cynnig i sefydlu dosbarth adnoddau dysgu yn Ysgol Gynradd Tremaen yn caniatáu i'r disgyblion hynny sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig barhau â'u haddysg mewn darpariaeth arbenigol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn yr un ysgol os ydynt yn symud o'r dosbarth arsylwi ac asesu i'r dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

## **Beth yw'r manteision pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo?**

- Byddai mwy o adnoddau yn Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ateb y galw am leoedd i ddisgyblion sydd â diagnosis o anhwylderau'r sbectrwm awtistig.
- Byddai dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn cael ei sefydlu ar lefel gynradd, gan roi cyfle i ddisgyblion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig ffynnu yn eu haddysg.

## **Beth yw'r anfanteision posibl pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo?**

- Ni ragwelir unrhyw anfanteision i'r cynnig hwn.

## **Effaith y cynigion**

### **Ansawdd a safonau mewn addysg**

- Ni fydd unrhyw effaith debygol ar ansawdd deilliannau, darpariaeth nac arweinyddiaeth a rheolaeth yn Ysgol Gynradd Tremaen mewn cysylltiad â'r cynnig i sefydlu dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion sydd â diagnosis o anhwylderau'r sbectrwm awtistig.

- Ni fydd unrhyw effaith debygol yn sgil y cynnig ar allu Ysgol Gynradd Tremaen i addysgu'r cwricwlwm llawn ym mhob cyfnod allweddol o addysg.

### Ystyriaethau eraill

- Cynhwysir Adroddiad Categoriaddio Ysgolion Cenedlaethol 2019/2020 ar gyfer ysgol Gynradd Tremaen yn Atodiad A.

### Ansawdd a safonau mewn addysg

- Yn y cyfnod sylfaen, mae perfformiad y ddwy flynedd ddiwethaf yn llawer uwch na Chymru, ac mae'n enwedig o gryf ar y deilliant 6+ sy'n uwch na'r disgwyl.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2, cynhelir safonau uchel ar y lefel ddisgwyliedig 4+. Mae tuedd gref ar i fyny ar y lefel ddisgwyliedig +1 mewn Saesneg a gwyddoniaeth dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'n llawer uwch na Chymru.
- Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr sy'n agored i niwed yn gwneud cynnydd da neu well ar draws yr ysgol. Mae disgyblion mwy abl yn perfformio'n dda gyda pherfformiad uchel ar ddeilliant 6 a lefel 5.

### Deilliannau (safonau a lles)

- Mae presenoldeb yn parhau i fod yn uwch na 95% ac yn rhoi'r ysgol yn y 50% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg.
- Mae ymddygiad disgyblion a'u hagweddau tuag at ddysgu yn dda. Mae nifer yr achosion o waharddiadau cyfnod penodol yn dal i fod yn gyson isel.

### Darpariaeth (profiadau dysgu, addysgu, staffio, cymorth gofal a chanllawiau, ac amgylchedd dysgu)

- Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn gyson dda ac mae'n rhagorol yn aml. Mae arweinwyr ac athrawon yr ysgol yn canolbwyntio'n ddi-ildio ar godi safonau.
- Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn effeithiol ac yn gadarnhaol ar draws cyfnod o dair blynedd. Mae athrawon yn nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gynnar.
- Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn drylwyr ac mae uwch-arweinwyr a staff yn effeithiol iawn wrth ddadansoddi a defnyddio data ar lefel ysgol gyfan, dosbarth a disgyblion unigol.

## **Arweinyddiaeth a rheolaeth (arweinyddiaeth, gwella ansawdd, gweithio mewn partneriaeth a rheoli adnoddau)**

- Mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn rhagorol. Mae gan y pennaeth ac uwch-arweinwyr weledigaeth a rennir a strategaeth glir sydd wedi gwella deilliannau i bob dysgwr bron.
- Mae gan fwyafrif y llywodraethwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella. Maent yn gwybod pa mor dda y mae'r ysgol yn perfformio ac yn cytuno ar dargedau heriol i godi safonau. Mae llywodraethwyr yn effeithiol o ran herio arweinwyr a monitro gwelliant mewn ysgol yn gadarn.
- Mae'r ysgol wedi meithrin perthynas gadarnhaol a gwerth chweil â rhieni.
- Mae cysylltiadau'r ysgol ag asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth yn cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd yn dda. Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ysgolion a phartneriaid eraill i wella eu capasiti eu hunain yn sylweddol, a chapasiti eraill i sicrhau gwelliannau.

## **Ystyriaethau eraill**

### **Trefniadau teithio ac effaith hygyrchedd**

- Ni fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar y trefniadau teithio presennol oherwydd bod cludiant ar gael i'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael lle mewn dosbarth adnoddau dysgu.
- Byddai ystyriaeth yn cael ei roi i'r dull priodol o deithio ar gyfer y disgyblion hynny sydd ag anhwylderau'r sbectwm awtistig a fyddai'n defnyddio'r dosbarth adnoddau dysgu yn Ysgol Gynradd Tremaen.

### **Tir ac adeiladau**

- Ni fydd y cynnig yn cynnwys unrhyw drosglwyddiad neu warediad tir posibl, ac nid oes unrhyw adeilad arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

## **Asesiadau Effaith**

### **Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned**

- Nid oes unrhyw effaith negyddol sylweddol ar y gymuned.  
(gweler Atodiad E)

### **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

- Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ystyried goblygiadau'r cynnig hwn ar bob aelod o'r gymuned leol y gallai'r cynnig effeithio arno'n annheg o ganlyniad i weithredu'r cynnig.
- Cynhaliwyd asesiad sgrinio effaith cychwynnol (gweler Atodiad F). Bydd y deilliannau a'r camau gweithredu a nodir gan yr asesiad hwn yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i'r Cabinet ar y broses ymgynghori a byddant yn helpu i greu asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb.
- Os oes gennych unrhyw safbwyntiau ar botensial y cynnig hwn i effeithio ar unrhyw grwpiau neu unigolion, boed yn gadarnhaol neu'n andwyol, yna byddem yn croesawu eich sylwadau yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Gweler y ffurflen ymgynghori.

## **Y risgiau**

- Nid oes unrhyw risgiau presennol yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. Bydd y dosbarth adnoddau dysgu yn cynyddu'r arbenigedd ymhlith staff Ysgol Gynradd Tremaen i ddarparu ar gyfer anghenion disgyblion eraill y gwyddys eu bod yn dangos nodweddion anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn absenoldeb diagnosis ffurfiol.
- Bydd yr asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb yn asesu unrhyw effeithiau posibl.

## **Dewisiadau eraill**

- Dewis arall yn lle agor y dosbarth adnoddau dysgu yn Ysgol Gynradd Tremaen fyddai agor dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn un o'r ysgolion eraill sy'n lleol i Ysgol Gynradd Tremaen.
- Dewis arall fyddai cefnogi'r disgyblion yn y brif ffrwd ac iddynt beidio â chael mynediad i amgylchedd dosbarth bach priodol.
- Deiliant tebygol y dewisiadau eraill hyn yw na fyddai anghenion y disgyblion sydd ag anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf priodol.

## **Manylion yr ysgol(ion) yr effeithir arnynt**

Ysgol Gynradd Tremaen  
Trem y Sianel  
Bracla  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF32

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am y niferoedd sydd ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Tremaen a'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y cyfrifiadau blynyddol blaenorol.

| Ysgol Gynradd Tremaen - Disgyblion ar y Gofrestr<br>(3-11 oed) |             |             |             |             |             |
|----------------------------------------------------------------|-------------|-------------|-------------|-------------|-------------|
| Ionawr 2016                                                    | Ionawr 2017 | Ionawr 2018 | Ionawr 2019 | Ionawr 2020 | Ebrill 2021 |
| 492                                                            | 482         | 494         | 483         | 458         | 474         |

Mae'r tabl canlynol yn darparu amcanestyniad pum mlynedd o'r boblogaeth ddisgyblion ar gyfer Ysgol Gynradd Tremaen, sef ysgol gynradd a chanddi ystod oedran o 3 hyd at 11.

| Blwyddyn /Year | M1<br>Oed / Age<br>2 - 3 | M2<br>Oed / Age<br>3 - 4 | D<br>Oed / Age<br>4 - 5 | 1<br>Oed / Age<br>5 - 6 | 2<br>Oed / Age<br>6 - 7 | 3<br>Oed / Age<br>7 - 8 | 4<br>Oed / Age<br>8 - 9 | 5<br>Oed / Age<br>9 - 10 | 6<br>Oed / Age<br>10 - 11 | Cyfanswm /Total<br>2-11 | Cyfanswm /Total<br>4-11 |
|----------------|--------------------------|--------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|--------------------------|---------------------------|-------------------------|-------------------------|
|                |                          |                          |                         | 98%                     | 98%                     | 93%                     | 97%                     | 96%                      | 98%                       |                         |                         |
| 2021           | 12                       | 54                       | 70                      | 58                      | 39                      | 58                      | 63                      | 62                       | 58                        | 474                     | 408                     |
| 2022           | 11                       | 56                       | 54                      | 69                      | 57                      | 36                      | 56                      | 60                       | 61                        | 460                     | 393                     |
| 2023           | 10                       | 59                       | 56                      | 53                      | 67                      | 53                      | 35                      | 54                       | 59                        | 446                     | 377                     |
| 2024           | 10                       | 59                       | 59                      | 55                      | 52                      | 63                      | 51                      | 34                       | 53                        | 436                     | 367                     |
| 2025           | 10                       | 59                       | 59                      | 58                      | 54                      | 48                      | 61                      | 49                       | 33                        | 431                     | 362                     |
| 2026           | 10                       | 59                       | 59                      | 58                      | 57                      | 50                      | 47                      | 58                       | 48                        | 446                     | 377                     |

Byddai cyflwr y llety yn Ysgol Gynradd Tremaen yn cael ei raddio fel cyflwr C. Mae gradd C yn golygu ei fod yn weithredol ond bod angen gwaith atgyweirio neu adnewyddu mawr yn y tymor byr i ganolog (3 blynedd yn gyffredinol).

Ysgol Gynradd Pencoed  
Ffordd Penprysg  
Pencoed  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF35 6RH

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am y niferoedd sydd ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Pencoed a'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y cyfrifiadau blynyddol blaenorol.

| Ysgol Gynradd Pencoed - Disgyblion ar y Gofrestr<br>(3-11 oed) |      |      |      |      |      |
|----------------------------------------------------------------|------|------|------|------|------|
| 2016                                                           | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
| 556                                                            | 563  | 585  | 597  | 596  | 610  |

Mae'r tabl canlynol yn darparu amcanestyniad pum mlynedd o'r boblogaeth ddisgyblion ar gyfer Ysgol Gynradd Pencoed, sef ysgol gynradd a chanddi ystod oedran o 3 hyd at 11.

| Blwyddyn /Year | M1<br>Oed /<br>Age<br>2 - 3 | M2<br>Oed /<br>Age<br>3 - 4 | D<br>Oed /<br>Age<br>4 - 5 | 1<br>Oed /<br>Age<br>5 - 6 | 2<br>Oed /<br>Age<br>6 - 7 | 3<br>Oed /<br>Age<br>7 - 8 | 4<br>Oed /<br>Age<br>8 - 9 | 5<br>Oed /<br>Age<br>9 - 10 | 6<br>Oed /<br>Age<br>10 - 11 |
|----------------|-----------------------------|-----------------------------|----------------------------|----------------------------|----------------------------|----------------------------|----------------------------|-----------------------------|------------------------------|
|                |                             |                             |                            | 105%                       | 101%                       | 106%                       | 106%                       | 103%                        | 105%                         |
| 2021           | 0                           | 67                          | 77                         | 63                         | 73                         | 83                         | 76                         | 87                          | 84                           |
| 2022           | 6                           | 67                          | 67                         | 81                         | 64                         | 74                         | 84                         | 77                          | 88                           |
| 2023           | 5                           | 66                          | 67                         | 70                         | 82                         | 64                         | 74                         | 85                          | 78                           |
| 2024           | 5                           | 66                          | 74                         | 70                         | 71                         | 82                         | 65                         | 75                          | 86                           |
| 2025           | 5                           | 66                          | 81                         | 78                         | 71                         | 72                         | 83                         | 66                          | 76                           |
| 2026           | 5                           | 66                          | 75                         | 85                         | 78                         | 72                         | 72                         | 84                          | 66                           |

Graddir cyflwr y llety yn Ysgol Gynradd Pencoed fel cyflwr A.Ystyr gradd A yw cyflwr newydd.

Ysgol Iau Llangewydd  
Ffordd Llangewydd  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF31 4JT

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am y niferoedd sydd ar y gofrestr yn Ysgol Iau Llangewydd a'r ffigurau a gofnodwyd ar gyfer y cyfrifiadau blyneddol blaenorol.

| Ysgol Iau Llangewydd - Disgyblion ar y Gofrestr<br>(7-11 oed) |      |      |      |      |      |
|---------------------------------------------------------------|------|------|------|------|------|
| 2016                                                          | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
| 333                                                           | 324  | 339  | 337  | 366  | 354  |

Mae'r tabl canlynol yn darparu amcanestyniad pum mlynedd o'r boblogaeth ddisgyblion ar gyfer Ysgol Iau Llangewydd, sef ysgol gynradd a chanddi ystod oedran o 7 hyd at 11.

| Blwyddyn /Year | M1<br>Oed / Age<br>2 - 3 | M2<br>Oed / Age<br>3 - 4 | D<br>Oed / Age<br>4 - 5 | 1<br>Oed / Age<br>5 - 6 | 2<br>Oed / Age<br>6 - 7 | 3<br>Oed / Age<br>7 - 8 | 4<br>Oed / Age<br>8 - 9 | 5<br>Oed / Age<br>9 - 10 | 6<br>Oed / Age<br>10 - 11 |
|----------------|--------------------------|--------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|-------------------------|--------------------------|---------------------------|
|                |                          |                          |                         |                         |                         | 84%                     | 100%                    | 102%                     | 102%                      |
| 2021           |                          |                          |                         |                         |                         | 72                      | 98                      | 89                       | 95                        |
| 2022           |                          |                          |                         |                         |                         | 58                      | 72                      | 100                      | 91                        |
| 2023           |                          |                          |                         |                         |                         | 68                      | 58                      | 73                       | 102                       |
| 2024           |                          |                          |                         |                         |                         | 80                      | 68                      | 59                       | 75                        |
| 2025           |                          |                          |                         |                         |                         | 78                      | 80                      | 69                       | 60                        |
| 2026           |                          |                          |                         |                         |                         | 71                      | 78                      | 81                       | 71                        |

Graddir cyflwr y llety yn Ysgol Iau Llangewydd fel cyflwr C. Mae gradd C yn golygu ei fod yn weithredol ond bod angen gwaith atgyweirio neu adnewyddu mawr yn y tymor byr i ganolig (3 blynedd yn gyffredinol).

## Cyllid

- Byddai'r cyllid ar gyfer y dosbarth adnoddau dysgu yn cael ei ddyrannu drwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol prif ffrwd, drwy ddyraniad fformiwla cyllido'r ysgol, a thrwy ddefnyddio cyfuniad o ddyraniad dosbarth a'r elfen uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl.
- Byddai'r lefelau cyllido yn deillio o anghenion staffio cyfredol tybiannol ac maent yn seiliedig ar gyflog athro a dau aelod o staff cymorth. £10,000 fyddai'r cyllid untro ar gyfer y costau sefydlu.
- Yn rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-22, cymeradwywyd pwysau cyllideb o £82,000 ar gyfer dosbarth adnoddau dysgu/dosbarth anhwylderau'r sbectrwm awtistig Cynradd ychwanegol i ddarparu ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2. Bydd y gyllideb hon yn cael ei defnyddio i gyllido'r dosbarth adnoddau dysgu, gan gynnwys y costau sefydlu, yn Ysgol Gynradd Tremaen pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo.

## Y broses ymgynghori

- Bydd y broses ymgynghori wedi ei chwblhau erbyn 24 Chwefror 2022 a bydd y canlyniadau (a fydd yn cael eu cynnwys yn y cynnig pan fo hynny'n bosibl) yn cael eu hadrodd i'r Cabinet. Os penderfynir peidio â mynd rhagddo, dyna fydd diwedd y cynnig hwn ar gyfer y dyfodol a bydd angen ceisio cynnig amgen.

- Os penderfynir mynd rhagddo, byddai angen cyhoeddi hysbysiad statudol sy'n amlinellu'r cynigion am gyfnod o 28 niwrnod. Os nad oes gwrthwynebiad i'r cynnig, yna bydd yn mynd rhagddo yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gan y Cabinet. Os bydd gwrthwynebiadau yn ystod y cam Hysbysiad Cyhoeddus, bydd yn rhaid cyhoeddi adroddiad gwrthwynebu. Gallai'r Cabinet benderfynu derbyn, gwrthod neu addasu'r cynnig.

Cynigir gweithredu'r cynnig o 1 Medi 2022.

| Gweithgaredd                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Dyddiad                                |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------|
| Cyfnod ymgynghori pan rydym yn croesawu eich safbwyntiau ar y cynnig*.                                                                                                                                                                                                                          | 10 Ionawr 2022 hyd at 24 Chwefror 2022 |
| Adroddiad Ymgynghori i'r Cabinet ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.                                                                                                                                                                                                                                 | 8 Mawrth 2022                          |
| Cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd copïau caled ar gael ar gais.                                                                                                                                                                          | 22 Mawrth 2022                         |
| Os cytunir arno gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cyhoeddir hysbysiad cyhoeddus a bydd cyfnod o 28 niwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn ysgrifenedig.                                                                                                    | 5 Ebrill 2022                          |
| Diwedd cyfnod yr Hysbysiad Cyhoeddus. Os nad oes gwrthwynebiad, caiff y Cabinet benderfynu ar unwaith a fydd y cynnig yn mynd rhagddo ai peidio. Os oes unrhyw wrthwynebiad, caiff Adroddiad Gwrthwynebiadau ei gyhoeddi a'i anfon i'r Cabinet i'w ystyried ac i benderfynu arno yn sgil hynny. | 2 Mai 2022                             |
| Gweithredu posibl.                                                                                                                                                                                                                                                                              | 1 Medi 2022                            |

\*Noder na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig ac mai dim ond ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus y gellir cofrestru gwrthwynebiadau.

### Beth sydd gennych i'w ystyried yn awr?

Fe'ch gwahoddir i ystyried y cynnig ac i gyflwyno eich safbwyntiau ynghylch a ydych yn cefnogi'r cynnig i sefydlu dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag anhwylderau'r sbectwm awtistig yn Ysgol Gynradd Tremaen.

## Sut i wneud eich safbwyntiau yn hysbys?

Cynhelir cyfarfodydd ymgynghori fel y nodir isod ar gyfer y gwahanol bartïon sydd â diddordeb. Fe'ch gwahoddir i fynd i'r cyfarfodydd perthnasol lle gallwch glywed esboniad o'r cynnig, gofyn cwestiynau a mynegi unrhyw safbwyntiau neu bryderon sydd gennych.

| Lleoliad: Ysgol Gynradd Pencoed          | Dyddiad        | Amser |
|------------------------------------------|----------------|-------|
| Cyngor yr Ysgol, Ysgol Gynradd Tremaen   | 17 Ionawr 2022 | 14:15 |
| Staff Ysgol Gynradd Tremaen              | 17 Ionawr 2022 | 15:30 |
| Corff llywodraethu Ysgol Gynradd Tremaen | 17 Ionawr 2022 | 16:30 |
| Rhieni disgyblion Ysgol Gynradd Tremaen  | 17 Ionawr 2022 | 17:30 |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am y cynnig hwn, os hoffech gyflwyno eich safbwyntiau yn ysgrifenedig, awgrymu cynigion amgen neu ofyn am gopi o'r adroddiad ymgynghori pan gaiff ei gyhoeddi, cysylltwch â (gan ddefnyddio'r ffurflen):

### Post:

Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a  
Chymorth i Deuluoedd  
Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i  
Deuluoedd,  
Swyddfeydd Dinesig  
Stryd yr Angel  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF31 4WB

Nodwch at sylw yr Uned Cefnogi'r  
Cyfarwyddiaeth, neu **E-bostiwrch:**  
[EDSU@bridgend.gov.uk](mailto:EDSU@bridgend.gov.uk)

**Ffôn:** (01656) 642617

Mae fformatau eraill hefyd ar gael ar gais.

Mae'n rhaid i bob safbwynt ddod i law erbyn 24 Chwefror 2022

## Ffurflen

Cynnig i sefydlu'r dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn Ysgol Gynradd Tremaen

Enw:

Manylion Cysylltu:

A ydych chi yn (*ticiwch*):

☐ Llywodraethwr ysgol

☐ Rhiant/gwarcheidwad

☐ Disgybl ysgol

☐ Staff yr ysgol

☐ Parti arall sydd â diddordeb (nodwch)

Sylw/awgrymiadau/ceisiadau/cwestiynau:

**Atodiad A**

Adroddiad Categoriaddio Cenedlaethol 2019/2020 ar gyfer Ysgol Gynradd Tremaen

**Atodiad B**

Adroddiad Categoriaddio Cenedlaethol 2019/2020 ar gyfer Ysgol Gynradd Pencoed

**Atodiad C**

Adroddiad Categoriaddio Cenedlaethol 2019/2020 ar gyfer Ysgol Iau Llangewydd

**Atodiad D**

Asesiad effaith ar y gymuned - sgrinio cychwynnol

**Atodiad E**

Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb - sgrinio cychwynnol.

**Atodiad F**

Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

## Atodiad A

### Adroddiad Categoriaddio Ysgolion Cenedlaethol

|                   |                            |
|-------------------|----------------------------|
| <b>Ysgol:</b>     | Ysgol Gynradd Tremaen      |
| <b>Rhanbarth:</b> | Consortiwm Canolbarth y De |

#### Cyd-destun yr Ysgol

- Cyfartaledd tair blynedd yr ysgol ar gyfer canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 13.4%, (ALI 19%, Consortiwm Canolbarth y De 19.7%).
- Roedd 68 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2, 31 o fechgyn a 37 o ferched, ac roedd pob disgybl yn werth 1.5%.
- Roedd 65 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6, 34 o fechgyn ac 31 o ferched, ac roedd pob disgybl yn werth 1.5%.

#### Safonau

##### Gwerthuso

Mae dadansoddiad arweinwyr o berfformiad yn gwerthuso'n gywir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella canlynol:

- Yn y cyfnod sylfaen, mae perfformiad y 2 flynedd ddiwethaf yn llawer uwch na Chymru, ac mae'n enwedig o gryf ar y deilliant 6+ sy'n uwch na'r disgwyl. Mae data cynnydd y disgyblion yn dda ac mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd uwch, neu lawer uwch na'r disgwyl mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2, cynhelir safonau uchel ar y lefel ddisgwyliedig 4+. Mae tuedd gref ar i fyny ar y lefel ddisgwyliedig +1 mewn Saesneg a gwyddoniaeth dros y 3 blynedd diwethaf, ac mae'n llawer uwch na Chymru. Mae'r data cynnydd yn gadarnhaol gyda llawer o ddisgyblion yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir, ac mae lleiafrif yn gwneud cynnydd sy'n uwch ac yn llawer uwch na'r disgwyl. Mae sgiliau llythrennedd y disgyblion wedi eu datblygu'n dda. Mae'r ysgol wedi llwyddo i leihau'r bwlch sylweddol rhwng y rhywiau yn Saesneg ar lefel 5, i -5.69, sydd ymhell islaw Cymru.
- O ran perfformiad fesul grwpiau o ddisgyblion penodol, mae'r disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi perfformio cystal, os nad yn well na'u cyfoedion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn hanesyddol ar y canlyniad/lefel ddisgwyliedig. Fodd bynnag, yn 2019, mae disgyblion nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n well na disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n well na chyfartaledd yr awdurdod lleol, neu'n unol â'r cyfartaledd hwnnw, yn y rhan fwyaf o ardaloedd.
- Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr sy'n agored i niwed yn gwneud cynnydd da neu well ar draws yr ysgol. Mae disgyblion mwy abl yn perfformio'n dda gyda pherfformiad uchel ar ddeilliant 6 a lefel 5.
- Mae presenoldeb yn parhau i fod yn uwch na 95% ac yn rhoi'r ysgol yn y 50% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg.
- Mae ymddygiad disgyblion a'u hagweddau tuag at ddysgu yn dda. Mae nifer yr achosion o waharddiadau cyfnod penodol isel yn dal i fod yn gyson.

## Cam 2 – Y Capasiti i Wella

Y categoraiddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth a thrafodaeth yng Ngham 2 yw: A

### Gwerthuso

- Mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn rhagorol. Mae gan y pennaeth ac uwch-arweinwyr weledigaeth a rennir a strategaeth glir sydd wedi gwella deilliannau i bob dysgwr bron. Mae'r pennaeth yn rhoi blaenoriaeth ar osod safonau cyflawni a lles uchel er mwyn creu amgylchedd dysgu gofalgwr a chefnogol i bob disgybl. Mae uwch-arweinwyr yn deall yn llawn y swyddogaeth bwysig sydd ganddynt o ran gwella deilliannau i ddisgyblion. Maent yn gwneud defnydd effeithlon o'u hamser, gan gefnogi staff a chwblhau gweithgareddau gwella ysgolion. Mae gan arweinwyr a staff swyddogaethau a chyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio'n dda ac maent yn arddangos safonau proffesiynol da. Mae staff yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro'r cynnydd o ran cyflawni targedau gwella'r ysgol ac mae arweinwyr yn cofnodi neu'n adolygu penderfyniadau'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu ac yn gwerthuso'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt. Mae'r uwch-dîm arweinyddiaeth yn defnyddio gwybodaeth am gynnydd disgyblion i gytuno ar dargedau rheoli perfformiad heriol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Er enghraifft, mae hyn wedi arwain at safonau uchel parhaus yng nghyfraeddiadau disgyblion mwy abl. Mae uwch-arweinwyr yn dosbarthu cyfrifoldebau'n effeithiol er mwyn cefnogi anghenion penodol yr ysgol. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi cynnydd ychwanegol yn y categori "llawer uwch".
- Mae blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac maent yn cael eu llywio gan ddeilliannau'r broses hunanwerthuso, er enghraifft o ran gwella safonau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae arweinwyr yn dangos capasiti cryf iawn i gynllunio a gweithredu newid ac i gynnal gwelliant yn llwyddiannus ym mhob ffordd bron. Maent yn ymgysylltu â'r holl staff a phartneriaid eraill yn effeithiol iawn yn y broses. Mae gan y cynllun gwella ysgol feini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir sy'n caniatáu i'r ysgol fonitro yn effeithiol y cynnydd o'i gymharu â'r targedau. Mae'r broses hunanwerthuso yn gywir, yn gadarn ac mae'n systematig bellach. Mae'r ysgol wedi nodi ystod dda o brosesau ar gyfer monitro a gwerthuso ei gwaith yn effeithiol a chasglu tystiolaeth uniongyrchol sy'n cefnogi barnau yn gywir, gan gynnwys cyfoedion sy'n arsylw ar ei gilydd, craffu ar waith, monitro gwaith cynllunio, gwrando ar ddysgwyr, teithiau dysgu, dadansoddi data a chyfarfodydd rheolaidd ynghylch cynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel ar ddatblygu'r gweithlu drwy reoli perfformiad yn effeithiol. Mae disgwyliadau o atebolrwydd cynyddol yn amlwg ar lefel uwch-arweinwyr, arweinyddiaeth ganol ac athrawon dosbarth.

- Mae'r ysgol yn gweithio o amserlen glir sy'n manylu ar yr ystod o waith monitro er mwyn casglu tystiolaeth uniongyrchol. Gweithredir y rhain yn gyson ac yn ddiwyd yn unol ag amserlen fonitro flynyddol yr ysgol. Maent yn darparu fframwaith pwrpasol fel y gall yr ysgol farnu effaith ei gwaith. Cynllunnir amser arwain a rheoli ar gyfer cyfarfodydd, ac mae cyfarfodydd ar bob lefel yn cael eu cofnodi a'u rhannu. Mae'r uwch-dîm arweinyddiaeth cyfan a staff allweddol ehangach yn craffu ar waith yn rheolaidd ac yn aml ar draws yr ysgol. Mae gan bob archwiliad bwyslais penodol a rennir â'r staff cyn monitro. Mae'r ysgol wedi datblygu dull ehangach o fonitro gwersi. Mae'r uwch-dîm arweinyddiaeth a'r arweinwyr targed wedi elwa ar amser arwain a rheoli â phwyslais fel y nodir yn y cynlluniau cynnydd. Rhennir sylwadau ar yr holl waith monitro ar draws y uwch-dîm arweinyddiaeth ac fe'u darperir yn brydlon i gyfnodau allweddol a staff unigol. Mae hyn yn galluogi'r ysgol i weithredu ar ei chanfyddiadau o dystiolaeth uniongyrchol ac i sicrhau bod cynlluniau ar gyfer gwelliannau yn barhaus ac o ansawdd da. Mae arweinwyr yn monitro pob maes sydd i'w ddatblygu'n ofalus, er enghraifft, cysondeb mewn lleiafrif o grwpiau blwyddyn ac ar eu traws. Mae gan yr ysgol systemau cadarn i fynd i'r afael â nhw mewn amrywiadau mewn ysgolion, gan gynnwys sesiynau safoni a chymedroli.
- Caiff cynnydd disgyblion ei olrhain yn drylwyr ac mae uwch-arweinwyr a staff yn effeithiol iawn wrth ddadansoddi a defnyddio data ar lefel ysgol gyfan, dosbarth a disgyblion unigol. Defnyddir data i nodi tanberfformiad ac i sicrhau gwelliannau gan ddisgyblion, er enghraifft, datblygu asesiad ar gyfer strategaethau dysgu i gefnogi camau dysgu nesaf y disgybl. Mae data, ynghyd â thystiolaeth am ansawdd y dysgu a'r addysgu, yn nodi cryfderau ac yn egluro blaenoriaethau gwella. Mae gan yr ysgol weithdrefnau cymedroli da ar waith er mwyn sicrhau cysondeb wrth lefelu ar ddiwedd y cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Mae'r ysgol wedi egluro'r disgwyliadau ar gyfer diwedd pob grŵp blwyddyn a diwedd y cyfnod allweddol. Mae adolygiadau cynnydd disgyblion rheolaidd yn cynnwys dadansoddiad o gynnydd y disgyblion sy'n fwy abl ac maent yn caniatáu ymyriadau a chymorth yn ôl yr angen. Mae llyfrau disgyblion wedi eu codio â lliwiau er mwyn adlewyrchu yr elfen o her.
- Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda yn gyson ac mae'n rhagorol yn aml. Mae arweinwyr ac athrawon yr ysgol yn canolbwyntio'n ddygn ar godi safonau. Maent yn gosod targedau sy'n uchelgeisiol ac yn gywir o'u cymharu â chyraeddiadau dilynol. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn effeithiol ac yn gadarnhaol ar draws cyfnod o dair blynedd. Mae athrawon yn nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gynnar. Er enghraifft, maent yn asesu anghenion iaith disgyblion pan fyddant yn dod i'r ysgol am y tro cyntaf. Mae'r staff yn defnyddio ystod o strategaethau ymyrryd i wella sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n llai abl neu

ddisgyblion a nodir. Maent hefyd yn trefnu cymorth emosiynol ac ymddygiadol defnyddiol i ddisgyblion sy'n agored i niwed. Mae cynlluniau unigol disgyblion yn cynnwys targedau addas ar gyfer gwelliannau. Mae athrawon, rhieni a disgyblion yn adolygu'r cynlluniau hyn yn rheolaidd. O ganlyniad i hyn, mae mwyafrif y disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn gwneud y cynnydd a ddisgwylir neu well, ac mae llawer ohonynt yn y categori llawer uwch. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos cynnydd gwerth ychwanegol ar lefel ddisgwyliedig neu well, ac mae hanner y rhain yn y categori uwch.

- Mae'r broses cynllunio gwelliannau yn mynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella fwyaf yn effeithiol iawn. Mae camau gweithredu, gan gynnwys defnyddio adnoddau, wedi arwain at welliannau parhaus mewn deilliannau mewn dangosyddion allweddol ar gyfer bob disgybl bron. Mae'r ysgol wedi sefydlu rhai egwyddorion allweddol wrth wraidd ei phroses welliannau sy'n canolbwyntio ar arferion yn yr ystafell ddosbarth. Mae gan bron i bob athro a staff cymorth berthynas waith dda gyda disgyblion ac maent yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol. Mae bron i bob un ohonynt yn cynllunio gwersi diddorol ac yn rhannu amcanion dysgu clir â disgyblion. Nododd gwaith craffu ar lyfr yn ddiweddar fod sylwadau, gan gynnwys sylwadau sy'n canolbwyntio ar atebion, yn darparu her addas. Mae gan fwyaf y staff ddealltwriaeth a rennir o nodweddion addysgu da a rhagorol ac maent yn dangos y rhain yn yr ystafell ddosbarth. Mae staff a disgyblion yn elwa ar bolisi marcio effeithiol.
- Caiff y gofrestr mwy abl a thalentog (MAT) ei hadolygu'n rheolaidd ac mae'n adlewyrchu'r ethos o ddisgwyliad uwch a fabwysiadwyd gan y staff. Mae systemau ar waith i gefnogi gwahaniaethu effeithiol ar gyfer disgyblion MAT. Caiff y broses cynllunio athrawon ei monitro i sicrhau bod cyfleoedd effeithiol yn cael eu rhoi. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion y nodwyd eu bod yn ddisgyblion MAT yn cyflawni eu targedau heriol. Yn y cyfnod sylfaen, nodir oddeutu hanner y disgyblion yn ddisgyblion MAT.
- Mae'r ysgol wedi sicrhau bod cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a chymhwyso eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn helaeth ac yn annibynnol ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi cynhyrchu gridiau cwrpas llythrennedd a rhifedd. Fe'u gweithredwyd, gan eu monitro gan y cydgysylltwyr llythrennedd a rhifedd a'r uwch-dîm arweinyddiaeth ac o ganlyniad mae sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm o safon dda neu well. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio eu sgiliau llythrennedd yn effeithiol mewn pynciau eraill, gan ysgrifennu ar yr un lefel ag yn eu gwersi Saesneg. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau, nid yw disgyblion yn defnyddio eu sgiliau rhifedd ar lefel ddigon uchel mewn pynciau eraill.
- Mae gan fwyaf y llywodraethwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella. Maent yn gwybod pa mor dda y mae'r ysgol yn

perfformio ac yn cytuno ar dargedau heriol i godi safonau. Mae llywodraethwyr yn effeithiol o ran herio arweinwyr a monitro gwelliant mewn ysgol yn gadarn.

- Mae'r ysgol wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol a gwerth chweil â rhieni. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yn darparu cefnogaeth gref drwy drefnu digwyddiadau codi arian a chymdeithasol poblogaidd y mae nifer da yn bresennol ynddynt. Mae rhieni'n ymweld â'r ysgol yn aml i fynd i gyngherddau a gwasanaethau addoli ar y cyd, a gofynnir am eu syniadau a'u barn am fywyd yr ysgol drwy arolygon rhieni. Mae ymgysylltiad â rhieni wedi gwella ar lefel gwricwlaidd.
- Mae cysylltiadau'r ysgol ag asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth yn cefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd yn dda. Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ysgolion a phartneriaid eraill i wella eu capasiti eu hunain yn sylweddol, a chapasiti eraill i sicrhau gwelliannau. Mae uwch-arweinwyr yn darparu cymorth effeithiol i ysgolion partner. Er enghraifft, rhannwyd arferion da ynghylch dysgu'n annibynnol mewn ymarfer cyfnod sylfaen, rhifedd ar draws y cwricwlwm, arferion da mewn gwyddoniaeth, mathemateg a chau'r bwlch.

#### **Tystiolaeth a Ystyriwyd**

- Data perfformiad yr ysgol gyfan dros y tair blynedd ddiwethaf, gan gynnwys data meincnodi cenedlaethol a setiau data craidd Cymru gyfan.
- Data ar lefel disgyblion unigol gan gynnwys perfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion megis disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a data am werth a ychwanegwyd.
- Data am brofion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.
- Adroddiad hunanwerthuso yr ysgol.
- Cynllun gwella yr ysgol.
- Dadansoddiad yr ysgol o ddeilliannau arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a chraffu ar lyfrau.
- Adroddiad gwella ysgol blaenorol y cynghorydd her a nodiadau yr ymweliad â'r ysgol.
- Dogfennaeth yn ymwneud ag amcanion perfformiad y pennaeth a monitro'r cynnydd o'i chymharu ag amcanion.
- Adroddiadau gan y swyddog Cymraeg mewn Addysg.
- Adroddiad arolygu Estyn o fis Mai 2017.
- Gwybodaeth uniongyrchol am fywyd a gwaith yr ysgol.

#### **Argymhellion**

|                                                                                                                                                                                                                                                                |              |              |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|--------------|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu ymhellach ddull cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn y cylch gwaith ADY.</li> <li>Datblygu cydweithrediad ymhellach fel ysgol.</li> <li>Ymgysylltu â'r prosiect dysgwyr sy'n agored i niwed.</li> </ul> |              |              |
| <b>Cam 3 – Y Categori Cymorth</b><br><br>Categori cymorth cyffredinol yr ysgol yw: Gwyrdd                                                                                                                                                                      |              |              |
| <b>Cam 1</b>                                                                                                                                                                                                                                                   | <b>Cam 2</b> | <b>Cam 3</b> |
| Amh.                                                                                                                                                                                                                                                           | A            | Gwyrdd       |
| <i>Dyfarniad dros dro, hyd nes y bydd y Gwiriad Cenedlaethol wedi ei gwblhau, yw'r dyfarniad yng Ngham 2 a'r penderfyniad a wnaed yng Ngham 3.</i>                                                                                                             |              |              |

## Atodiad B

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                            |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------|
| <b>Adroddiad Categoriaddio Ysgolion Cenedlaethol</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                            |
| <b>Ysgol:</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Ysgol Gynradd Pencoed      |
| <b>Rhanbarth:</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                | Consortiwm Canolbarth y De |
| <b>Cyd-destun yr Ysgol</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                            |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfartaledd tair blynedd yr ysgol ar gyfer canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw %, (Consortiwm Canolbarth y De 20.6%, Cymru 18.9%).</li> <li>Roedd 68 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 2, 36 o fechgyn a 32 o ferched, ac roedd pob disgybl yn werth 1.5%.</li> <li>Roedd 70 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6, 34 o fechgyn ac 36 o ferched, ac roedd pob disgybl yn werth 1.3%.</li> </ul> |                            |
| <b>Safonau</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   |                            |
| <b>Gwerthuso</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                            |
| Mae dadansoddiad arweinwyr o berfformiad yn gwerthuso'n gywir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella canlynol:                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                            |

- Yn y cyfnod sylfaen, gostyngodd y perfformiad ychydig o'r llynedd ond mae'n dal i fod yn agos at ddata cyfartalog Cymru ar y lefel ddisgwyliedig.
- Cyrhaeddodd mwyafrif y disgyblion y lefel ddisgwyliedig +1 yn PSWCD, ac oddeutu 40% o ddisgyblion mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol.
- Mae'r data cynnydd disgyblion yn dda yn y cyfnod sylfaen ac mae dros hanner y disgyblion yn gwneud cynnydd uwch a llawer uwch disgwyliedig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a mwyafrif y disgyblion mewn datblygiad mathemategol.
- Yng Nghyfnod Allweddol 2, gwnaeth mwyafrif y disgyblion gynnydd disgwyliedig neu uwch na'r disgwyl mewn Saesneg a mathemateg. Gwnaeth nifer sylweddol o ddisgyblion gynnydd is na'r disgwyl, sy'n adlewyrchu'r nifer fawr o ddisgyblion ADY yn yr ysgol y mae rhai ohonynt yn un o'r pedair canolfan adnoddau dysgu.
- Yn hanesyddol, cyrhaeddodd mwyafrif y disgyblion y lefel ddisgwyliedig dros y tair blynedd diwethaf, ond gostyngodd hyn yn 2019 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
- O ran perfformiad gan grwpiau o ddisgyblion penodol, mae mwyafrif y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd disgwyliedig neu well mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac mae llawer ohonynt yn gwneud hyn mewn datblygiad mathemategol. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd

a mathemateg. Mae rhywfaint o amrywiaeth ym mherfformiad bechgyn a merched, ond nid oes tuedd amlwg dros amser. Mae presenoldeb wedi gwella dros y ddwy flynedd ddiwethaf (95.1% - 95.4%) ac mae'r ysgol yn y 50% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae ymddygiad disgyblion a'u hagweddau tuag at ddysgu yn dda. Mae achosion o waharddiadau cyfnod penodol yn fwyfwy prin.

disgwyliedig neu well mewn Saesneg

## Cam 2 – Y Capasiti i Wella

Y categoraiddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth a thrafodaeth yng Ngham 2 yw: A

### Gwerthuso

- Mae'r arweinwyr a'r staff wedi datblygu gweledigaeth a rennir ac mae strategaeth glir iawn sydd wedi gwella deilliannau i bob dysgwr bron. Mae ymagwedd hynod gymhellol a brwdfrydig uwch-arweinwyr yn arwain at lefelau uchel iawn o ymrwymiad a phroffesiynoldeb gan yr holl staff ar draws yr ysgol.

- Mae arweinwyr yn dangos capasiti cryf iawn i gynllunio a gweithredu newid ac i gynnal gwelliant yn llwyddiannus ym mhob ffordd bron. Maent yn ymgysylltu â'r holl staff a phartneriaid eraill yn effeithiol iawn yn y broses newid. Amlygwyd hyn gan ffurfiad Fforwm Teuluol, lle mae rhieni'n ymgysylltu'n weithredol mewn gweithgareddau hunanwerthuso a gwella'r ysgol. Mae statws Ysgol Greadigol Arweiniol yr ysgol yn enghraifft gref o sut y defnyddiwyd arweinyddiaeth ddosbarthedig mewn ffordd arloesol i wella capasiti'r ysgol yn ogystal â datblygu sgiliau creadigol y disgyblion.
- Mae'r hunanwerthusiad yn gywir, yn gadarn, yn systematig ac yn sefydlog. Mae'r hunanwerthusiad yn effeithiol iawn o ran cyfrannu at wella safonau, dysgu ac addysgu. Mae prosesau newydd wedi sicrhau bod safbwyntiau disgyblion a staff yn cael ei derbyn gan yr uwch-dîm arweinyddiaeth yn rheolaidd, a'u bod yn cael eu bwydo'n uniongyrchol i'r broses hunanwerthuso. Mae gwerthusiadau diwedd y flwyddyn yr ysgol yn canolbwyntio ar ymatebion athrawon a staff cymorth i gwestiynau perthnasol o'r fframwaith arolygu newydd. Mae hyn wedi sicrhau bod adroddiadau staff yn werthusol iawn ac yn bwydo gwybodaeth o ansawdd uchel i adroddiad hunanwerthuso yr ysgol.
- Mae'r arweinwyr a'r staff yn hynod effeithiol wrth ddadansoddi a defnyddio'r data perfformiad sydd ar gael a thystiolaeth am ansawdd y dysgu a'r addysgu a gwaith disgyblion, er mwyn nodi cryfderau a phennu blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau. Mae gwaith dadansoddi data manwl a chadarn yn mynd rhagddo drwy gydol y flwyddyn. Caiff tueddiadau o ran perfformiad dosbarthiadau, grwpiau blwyddyn a grwpiau sy'n agored i niwed eu nodi'n gywir, a rhoddir sylwadau rheolaidd i'r corff llywodraethu. Mae hyn yn galluogi'r corff llywodraethu i herio'r ysgol yn effeithiol ar ei pherfformiad. Mae'r ysgol yn defnyddio cymorth allanol yn effeithiol iawn, e.e., y swyddog cymorth Cymraeg mewn addysg i sicrhau ansawdd ei dyfarniadau. Mae'r arweinwyr a'r athrawon yn canolbwyntio'n ddygn ar godi safonau. Mae'r targedau'n adlewyrchu disgwyliadau uchel ar gyfer cyflawniad pob disgybl yn y dyfodol a chyflawnir y rhain yn bennaf. Ceir tystiolaeth glir o hyn yn system olrhain yr ysgol sy'n nodi'r lefel gref o gynnydd a wnaed gan bob disgybl bron.
- Mae gan yr ysgol hanes da iawn o godi cyflawniad pob disgybl bron, gan gynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed dros gyfnod o dair blynedd o leiaf. Mae dadansoddiad yr ysgol o'i data ei hun yn dangos bod bron pob un o'r disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd yn unol â'u cam datblygu. Cyflawnodd pob plentyn sy'n derbyn gofal y lefel ddisgwyliedig.
- Mae'r broses cynllunio gwelliannau ar bob lefel yn mynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella fwyaf yn effeithiol iawn. Mae camau gweithredu, gan gynnwys defnyddio adnoddau, wedi arwain at welliannau parhaus mewn deilliannau mewn dangosyddion allweddol ar gyfer bob disgybl bron, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a grwpiau eraill sy'n

agored i niwed. Arweiniodd nodi'r angen i wella cyrhaeddiad ar ddeilliant 6 yn y cyfnod sylfaen yr ysgol i wneud newidiadau o ran cynllunio a darparu. Mae data'r ysgol ei hun ar gyfer disgyblion prif ffrwd yn dangos cynnydd o 7 pwynt canran mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, 6 phwynt canran mewn datblygiad mathemategol a 22 bwynt canran mewn PSWBCD yn ystod y tair blynedd diwethaf o ganlyniad i hynny.

- Mae gan yr ysgol hanes cryf iawn o weithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn llwyddiannus er mwyn gwella safonau ac ansawdd y dysgu a'r addysgu. Mae'r ysgol wedi bod yn rhagweithiol iawn yn ei gwaith er mwyn ymgorffori'r fframwaith cymhwysedd digidol. Crëwyd portffolio helaeth o dystiolaeth ac mae'r ysgol wedi llwyddo i gyflawni ICT Mark. Mae'r ysgol wedi dechrau'r broses o baru ei harferion presennol â'r cwricwlwm newydd posibl, fodd bynnag, mae'n cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith o hyd.
- Mae arweinwyr a staff yn gweithio'n llwyddiannus iawn gydag ysgolion a phartneriaid eraill i wella eu capasiti eu hunain yn sylweddol ac i sicrhau gwelliannau. Mae gan yr ysgol brofiad helaeth o ddarparu cymorth i ysgolion eraill drwy ei grŵp gwella clwstwr ac ysgolion, ac ar hyn o bryd mae'n ganolfan dysgu proffesiynol Consortiwm Canolbarth y De, gan ddarparu hyfforddiant i ysgolion ar ymgysylltu â rhieni, athrawon newydd gymhwyso, addysgu a dysgu, hyfforddiant mwy abl a thalentog a chychwynnol i athrawon. Mae'r ysgol bellach yn gallu nodi effaith ei gwaith yn y lleoliadau y mae wedi eu cefnogi.
- Gall y cynghorydd her gadarnhau bod gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella, a'u bod yn cefnogi ac yn herio perfformiad yr ysgol yn hynod effeithiol. Mae holl aelodau'r corff llywodraethu yn gysylltiedig â rhan o gynllun gwella yr ysgol ac maent yn dwyn yr uwch-dîm arweinyddiaeth i gyfrif drwy gwestiynau perthnasol a heriol. Mae pob llywodraethwr cyswllt yn cynnal ei waith monitro effeithiol ei hun, gyda chefnogaeth staff, gan adrodd yn ôl i'r pennaeth a'r corff llywodraethu llawn.
- Mae gan arweinwyr a staff swyddogaethau a chyfrifoldebau sydd wedi eu diffinio'n dda ac maent yn arddangos safonau proffesiynol uchel. Mae gan yr ysgol strwythur rheoli llinell clir iawn sy'n galluogi cyfathrebu rhagorol a chydweithrediad hynod effeithiol rhwng athrawon a staff cymorth ym mhob rhan o'r ysgol.
- Mae llywodraethwyr ac arweinwyr yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel ar ddatblygu'r gweithlu. Mae'r prosesau rheoli perfformiad a datblygu proffesiynol yn llwyddiannus iawn o ran gwella cynnydd disgyblion, arferion ystafell ddosbarth ac wrth ymdrin â thanberfformio. Mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol yn cysylltu'n uniongyrchol â blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol ac mae gweithgareddau rheoli perfformiad yn mesur eu heffaith a'u llwyddiant. Mae rhaglen gymorth hynod effeithiol a chadarn wedi ei rhoi ar waith i sicrhau bod meysydd pwyslais penodol, e.e., amgylcheddau dysgu yn cael eu cymhwyso'n gyson ar draws yr ysgol.

- Mae arsylwadau gwersi, gwaith craffu ar lyfrau a dadansoddiadau data yn dangos bod ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol, a'r effaith ar y broses o ddysgu a chynnydd pob disgybl bron, yn dda yn gyson ac yn rhagorol yn aml. Mae nodweddion cryf iawn yn cynnwys ymgysylltu ar lefelau uchel a lefelau helaeth o annibyniaeth. Defnyddiwyd y broses o rannu arferion da a rhagorol yn fewnol a hyfforddiant i fynd i'r afael ag amrywiant yn yr ysgol wrth addysgu.
- Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth a rennir o nodweddion addysgu rhagorol a da ac maent yn dangos y rhain yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol wedi datblygu ei 'map gwersi' hynod greadigol ei hun sydd, gyda chyfraniad yr holl staff, yn nodi nodweddion addysgu da a rhagorol yn glir. Mae hyn wedi cefnogi anghenion athrawon unigol yn hynod effeithiol, gan eu galluogi i wella eu harferion eu hunain drwy system hyfforddi dda iawn.
- Mae prosesau i arwain, nodi, dilysu a rhannu arferion effeithiol yn cyflawni gwelliant parhaus yn ansawdd y dysgu a'r addysgu ar draws yr ysgol yn ei chyfanrwydd.
- Mae prosesau i olrhain cynnydd disgyblion, i nodi anghenion ac i ddarparu cymorth yn gadarn ac yn effeithiol ym mhob achos bron. Mae'r ysgol yn adolygu ac yn monitro ei systemau olrhain o ansawdd uchel yn ddiwyd ac o ganlyniad i raglenni ymyrraeth cadarn, mae'r ysgol yn diwallu anghenion bron i bob disgybl yn llwyddiannus.
- Asesir athrawon yn gyson ac yn gywir. Cytunwyd yn gyson ar holl asesiadau'r ysgol yn ystod gweithgareddau cymedroli clwstwr gan yr ysgolion dan sylw a chan ddilyswyr allanol.

### **Tystiolaeth a Ystyriwyd**

- Data perfformiad yr ysgol gyfan dros y tair blynedd ddiwethaf, gan gynnwys data meincnodi cenedlaethol a setiau data craidd Cymru gyfan.
- Data ar lefel disgyblion unigol gan gynnwys perfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion megis disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a data am werth a ychwanegwyd.
- Data am brofion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.
- Adroddiad hunanwerthuso yr ysgol.
- Cynllun gwella yr ysgol.
- Dadansoddiad yr ysgol o ddeilliannau arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a chraffu ar lyfrau.
- Adroddiad gwella ysgol blaenorol y cynghorydd her a nodiadau yr ymweliad â'r ysgol.
- Dogfennau yn ymwneud ag amcanion perfformiad y pennaeth a monitro'r cynnydd o'i chymharu ag amcanion.
- Adroddiadau gan y swyddog Cymraeg mewn Addysg.
- Adroddiad arolygu Estyn.
- Gwybodaeth uniongyrchol am fywyd a gwaith yr ysgol.

## Argymhellion

Codi safonau y Gymraeg.

Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu estynedig.

Gweithio gyda disgyblion sy'n gwneud cynnydd llai na'r disgwyl.

## Cam 3 – Y Categori Cymorth

Categori cymorth cyffredinol yr ysgol yw: Melyn

| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3  |
|-------|-------|--------|
| Amh.  | A     | Gwyrdd |

*Dyfarniad dros dro, hyd nes y bydd y Gwiriad Cenedlaethol wedi ei gwblhau, yw'r dyfarniad yng Ngham 2 a'r penderfyniad a wnaed yng Ngham 3*

## Atodiad C

### Adroddiad Categoriaddio Ysgolion Cenedlaethol

|                   |                            |
|-------------------|----------------------------|
| <b>Ysgol:</b>     | Ysgol Iau Llangewydd       |
| <b>Rhanbarth:</b> | Consortiwm Canolbarth y De |

#### Cyd-destun yr Ysgol

- Cyfartaledd tair blynedd yr ysgol ar gyfer canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 26%, (Consortiwm Canolbarth y De 20.0%, Cymru 18.4%).
- Roedd 71 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 6, 33 o fechgyn a 38 o ferched, ac roedd pob disgybl yn werth 1.4%.

#### Safonau

##### Gwerthuso

Mae dadansoddiad arweinwyr o berfformiad yn gwerthuso'n gywir y cryfderau a'r meysydd i'w gwella canlynol:

- Mae'r safonau yn y brif ffrwd dros amser yn dda.
- Mae ymddygiad ac agweddau disgyblion tuag at ddysgu yn dda iawn, ac mae achosion o waharddiadau cyfnod penodol yn brin iawn.
- Yn y cyfnod sylfaen, mae perfformiad y ddwy flynedd ddiwethaf yn uchel, yn enwedig ar y deilliant 6+ sy'n uwch na'r disgwyl. Mae'r data cynnydd disgyblion yn gryf iawn ar gyfer 2019 hefyd, ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd uwch, neu lawer uwch na'r disgwyl mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol.
- Yng nghyfnod allweddol 2, cynhelir safonau uchel ar y lefel ddisgwyliedig 4+. Tuedd sy'n gwella'n gryf ym mhob pwnc craidd ar y lefel uwch na'r disgwyl 5+. Mae data cynnydd ar draws cyfnod allweddol 2 yn enwedig o gryf, gyda bron i bob disgybl yn cynyddu o leiaf dwy lefel, ac 48.4% yn cynyddu tair lefel mewn Saesneg, a 54.8% mewn mathemateg. Mae sgiliau llythrennedd y disgyblion wedi eu datblygu'n dda. Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched mewn ysgrifennu lefel 5+ wedi gostwng yn llwyddiannus dros amser.
- O ran perfformiad gan grwpiau o ddisgyblion penodol, mae'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio'n unol â'r disgwyliadau yn hanesyddol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a dysgwyr sy'n agored i niwed yn gwneud cynnydd da neu well

ar draws yr ysgol. Mae rhywfaint o amrywiaeth, o blaid y merched, ym mherfformiad bechgyn a merched ar draws pob maes yn y deilliant 6+ a gwyddoniaeth ar lefel 5+; fodd bynnag, nid oes tuedd glir dros amser. Mae disgyblion mwy abl yn perfformio'n dda, gyda pherfformiad uchel ar ddeilliant 6+ a lefel 5+ dros amser.

- Gostyngiad mewn presenoldeb o 95.9% yn 2017 – 2018 i 95% yn 2018 - 2019 (data am y tro). O'i gymharu ag ysgolion tebyg, mae'r perfformiad yn amrywio ac yn y 50% isaf neu'r 25% isaf dros y tair blynedd diwethaf.

## Cam 2 – Y Capasiti i Wella

Y categoraiddiad sy'n seiliedig ar dystiolaeth a thrafodaeth yng Ngham 2 yw: A

### Gwerthuso

- Mae'r arweinwyr a'r llywodraethwyr wedi datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer yr ysgol ac mae'r weledigaeth yn weladwy ac fe'i deallir yn glir gan yr holl randdeiliaid. Mae'r arweinwyr a'r llywodraethwyr wedi cydweithredu a llunio prospectws ysgol cynhwysfawr sydd o safon uchel iawn. Mae'r prospectws yn cwmpasu ethos cynhwysol yr ysgol a'i hymrwymiad parhaus i waith elusennol ac i gynnwys y gymuned. Mae hwn yn un o gryfderau'r ysgol. Sbardunir yr ysgol gan safonau ac mae ganddi strategaethau clir iawn i wella cyflawniad a chyraeddiadau pob disgybl.  
Mae'r broses hunanwerthuso'n ddiogel, yn seiliedig ar dystiolaeth ac mae hi wedi sicrhau newid gweithredol effeithiol. Mae adroddiad hunanwerthuso'r ysgol yn nodi'r meysydd allweddol i'w gwella yn gywir ac eir i'r afael â'r rhain yng nghynllun gwella yr ysgol. Cyflwynir yr adroddiad hunanwerthuso yn fformat newydd Estyn, sy'n fwy cryno a gwerthusol. Mae'n cynnwys datganiad gweithredol manwl o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu. Mae cylch monitro, gwerthuso ac adolygu yr ysgol yn gadarn ac mae'n sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer asesu cynnydd yn systematig ac yn effeithiol. Er enghraifft, mae diben clir dros arsylwi pob gwers a arsylwir ac mae cysylltiad agos rhyngddynt a blaenoriaethau cynllun gwella yr ysgol. Maent hefyd yn cynnwys pwyslais ar grŵp penodol megis disgyblion mwy abl a thalentog (MAT) neu grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'r ysgol yn rheoli newid yn dda. Er enghraifft, ar ôl ailstrwythuro uwch-swyddogaethau arwain, mae'r pennaeth cynorthwyol wedi cynyddu'r cyfrifoldeb dros addysgu a dysgu, ac mae hynny wedi sicrhau bod trefniadaeth yr ystafell ddosbarth yn cefnogi'r dasg o addysgu'r cwricwlwm newydd. Yn dilyn adolygiad o'r ysgol gyfan, symudodd yr ysgol o ddarpariaeth ar sail lleoliad i ddarpariaeth gallu cymysg sy'n fwy cydnaws ag ethos yr ysgol. O ganlyniad i hynny, mae'r ymgysylltiad â dysgwyr yn uchel yn gyson.
- Mae'r broses dadansoddi data yn drylwyr, fe'i cyflwynir mewn amrywiaeth o ffyrdd sy'n briodol i'r gynulleidfa, ac fe'i defnyddir yn dda i gefnogi'r dasg o bennu targedau effeithiol a heriol gyda'r nod o sicrhau gwelliannau i'r ysgol. Mae'r athrawon a'r arweinwyr yn olrhain ac yn monitro cynnydd pob disgybl

yn effeithiol iawn. Mae targedau disgyblion unigol yn llywio'r broses o bennu targedau ar gyfer carfanau a thargedau ar gyfer yr ysgol gyfan. Mae'r targedau'n adlewyrchu disgwyliad uchel pob disgybl, boed hynny ar lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol neu ar lefelau BSquared yn y canolfannau adnoddau dysgu. Mae gan yr ysgol hanes da o godi cyflawniad pob disgybl bron. Mae'r ysgol yn defnyddio'r system rheoli gwybodaeth ysgolion yn effeithiol iawn. Mae'r ysgol wedi creu swyddogaeth arweinydd systemau ac ymyriadau newydd i werthuso effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion.

- Mae'r broses cynllunio gwelliannau ar bob lefel yn mynd i'r afael â'r meysydd y mae angen eu gwella fwyaf yn effeithiol iawn. Nodir personél allweddol, gan gynnwys llywodraethwyr cyswllt, yn nhargedau gwelliannau yr ysgol. Mae cynllun gwella yr ysgol yn ddogfen gynhwysfawr iawn ac mae'n rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Gwnaed cynnydd da tuag at weithredu addysgeg y cwricwlwm newydd. Er enghraifft, yn arweinydd addysgu a dysgu, mae gan y pennaeth cynorthwyol ddealltwriaeth uchel o ofynion y cwricwlwm ac o'r broses o lunio cynllun dysgu cydlynol. Mae wedi arwain yr holl staff yn effeithiol iawn wrth iddynt lunio gwe o bynciau trawsgwricwlaidd ar y cyd, gan ystyried llais y disgybl yn dda. Fe'i cynlluniwyd i ennyn diddordeb ac i gyffroi pob dysgwr.
- Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n dda â'r paratoad ar gyfer y bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae prosesau effeithiol ar waith eisoes. Mae'r cydgysylltydd ADY wedi hen ymsefydlu ac mae wedi paratoi'n dda ar gyfer y newidiadau.
- Mae'r arweinwyr a'r llywodraethwyr yn dyrannu adnoddau i feysydd a chymau gweithredu yn dda iawn sy'n sicrhau bod yr ysgol yn cynnal ei momentwm wrth symud ymlaen.
- Mae'r gwaith ysgol i ysgol yn sefydlog iawn. Mae gan yr ysgol gapasiti da i gefnogi eraill, er enghraifft, mae'r ysgol wedi datblygu sgiliau dysgu annibynnol a sgiliau datrys problemau disgyblion yn dda. Mae'r athrawon wedi lledaenu eu gwaith a chynnal ymweliadau arferion da. Mae hyn wedi ei arddangos hefyd yng Ngŵyl Ddysgu yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu gweithdy ar reoli a darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anhwylderau'r sbectwm awtistig mewn dosbarthiadau adnoddau dysgu ac mewn dosbarthiadau prif ffrwd.
- Mae gan yr ysgol arferion enwedig o gryf mewn datblygiad diwylliannol ac addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol, yn enwedig mewn cerddoriaeth lle bu'r ysgol yn gynnig 'School a-vision' Cymraeg am yr 11 mlynedd ddiwethaf. Rhannwyd hyn ag ysgolion ar draws y consortiwm. Mae'r athrawon yn effeithiol wrth iddynt gefnogi eraill i wella eu safonau ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae'r Swyddog Cymorth Cymraeg mewn Addysg wedi cydnabod ansawdd uchel gwaith y disgyblion yn y Gymraeg. Mae'r ysgol ar y trywydd i ennill gwobr efydd Cymraeg Campus erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.
- Mae'r athrawon a'r arweinwyr yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddatblygu sgiliau dysgu'r disgyblion ac i sicrhau gwelliant i bob disgybl. Mae'r ysgol yn ymwneud yn eang â rhwydweithiau arferion proffesiynol; bob hanner

tymor, cynhelir cyfarfodydd penaethiaid a dirprwy benaethiaid clwstwr a rhaglen dreigl i ddiwygio'r cwriclewm a chyfarfodydd Cymraeg i godi safonau ar draws y clwstwr. Mae partneriaethau ag ysgolion a busnesau megis Bethesda Arts, yr Adran Gwaith a Phensiynau (Codio) a sefydliadau eraill yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ystod sy'n ehangu o gyfleoedd dysgu sydd ar gael i bob disgybl. Arweiniodd gwaith ar draws cyfnodau hynod effeithiol gyda'r ddwy ysgol fwydo ar gyfer babanod ynghylch nodi strategaethau addysgu a dysgu effeithiol at gyflwyno addysgeg y cyfnod sylfaen i mewn i Flwyddyn 3 a gwell darpariaeth ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr sy'n pontio i Gyfnod Allweddol 2.

- Mae gan y corff llywodraethu wybodaeth ddiogel am berfformiad disgyblion ac athrawon. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr ynghylch dadansoddi data a chynnydd disgyblion. Mae'r llywodraethwyr yn rhagweithiol, maent yn ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n effeithiol ac maent yn cefnogi ac yn herio'r ysgol. Er enghraifft, mae'r llywodraethwyr wedi arsylwi'r ystafelloedd dosbarth er mwyn gwella eu gwybodaeth am strategaethau addysgu a dysgu; maent yn monitro'n uniongyrchol ac yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gasglu safbwyntiau disgyblion drwy gyfarfodydd grŵp llais y disgyblion a chyflwyniadau rheolaidd gan y disgyblion i'r llywodraethwyr.
- Mae'r arweinyddiaeth ddosbarthedig yn sefydlog. Mae'r arweinwyr a'r llywodraethwyr wedi ailstrwythuro swyddogaethau arwain gan roi ystyriaeth dda i ddiwygio'r cwriclewm. Mae'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau wedi eu diffinio a'u deall yn dda. Mae'r uwch-arweinwyr yn gyfrifol am dargedau yng nghynllun gwella yr ysgol ac maent yn atebol am safonau yn eu meysydd dirprwyedig. Yn eu tro, maent yn dwyn athrawon i gyfrif am gynnydd y disgyblion sydd yn eu dosbarthiadau. Er enghraifft, amlygodd gwaith monitro yr arweinwyr canol yr angen am fwy o gysondeb o ran yr iaith y dysgir ynddi, asesu ar gyfer dysgu, mewnbwn gan ddisgyblion ac ymgysylltu â disgyblion. Cyflwynodd yr ysgol offeryn Quentin Quality fel y gall disgyblion arfarnu ansawdd eu gwaith eu hunain. Datblygwyd meysydd Quentin Quality ym mhob dosbarth sy'n cynnwys adnoddau a strategaethau, sy'n galluogi disgyblion i asesu a gwella eu gwaith eu hunain ac i wneud cynnydd yn eu dysg.
- Mae'r broses rheoli perfformiad yn nodi blaenoriaethau'r ysgol gyfan a blaenoriaethau unigol ac fe'i monitrir yn gadarn. Mae pob uwch-arweinydd yn werthuswr rheoli perfformiad hefyd ac maent yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn effeithiol iawn gan sicrhau bod cysylltiad agos rhwng amcanion a blaenoriaethau cynllun gwella yr ysgol ac maent yn rhoi ystyriaeth dda i'r safonau proffesiynol. Mae'r ysgol yn datblygu'n dda fel sefydliad sy'n dysgu. Mae'r holl staff wedi eu hyfforddi drwy ddiwrnod HMS ac mae pob un ohonynt wedi cyfrannu at hunanwerthusiad ysgol o'i gymharu â 7 dimensiwn dogfen 'Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu', sydd wedi nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu ymhellach. Mae'r ysgol yn sefydlu diwylliant o ymholi, arloesi ac archwilio ac mae'r athrawon yn dod yn ymarferwyr mwy myfyriol. Mae'r ysgol yn gweithio gydag ystod o ddarparwyr hyfforddiant i sicrhau bod dysgu proffesiynol yn parhau i fod yn arloesol ac yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu. Yn ogystal â'r llywodraethwyr a'r arweinwyr sy'n darparu ar gyfer dysgu proffesiynol

i'r holl staff, mae disgwyliad penodol hefyd y bydd yr holl staff yn ymgysylltu â chyfluoedd i ddatblygu eu harferion.

- Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol a'i effaith ar broses ddysgu mwyafrif y disgyblion yn dda'n gyson, a cheir enghreifftiau rhagorol o hyn. Mae gan bron i bob un o'r athrawon ddealltwriaeth a rennir o nodweddion addysgu da a rhagorol ac maent yn dangos y rhain yn eu harferion yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r arweinwyr yn gwneud defnydd da iawn o'r holl ddeilliannau monitro, i lywio eu dyfarniadau am ansawdd yr addysgu ac i nodi unrhyw amrywiant gan fynd i'r afael ag ef. Mae'r rhain yn cynnwys arsylwi ar wersi, craffu ar lyfrau a gwrando ar ddysgwyr.
- Mae'r llywodraethwyr wedi cymryd rhan weithredol hefyd yn y gwaith o fonitro'r prosesau addysgu a dysgu. Mae sgiliau mwyafrif yr athrawon, fel ymarferwyr myfyriol, yn datblygu'n dda. Mae tystiolaeth o'r gwaith monitro'n dangos bod yr athrawon yn rhoi disgwyliadau uchel iawn ar yr holl ddisgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau i ennyn diddordeb y disgyblion. Mae'r ysgol wedi nodi'r angen i sicrhau bod dosbarthiadau a meysydd dysgu yn ddigon ysgogol ac ymgysylltiol, ac mae wedi cyflwyno model hawlogaeth dysgwyr er mwyn diwallu eu hanghenion a nodir a sicrhau gwelliannau. Mae mapiau cysyniad addysgu a dysgu o ansawdd uchel y pennaeth cynorthwyol yn nodi'n glir ddisgwyliadau yr holl athrawon a swyddogion cymorth dysgu, a disgwyliadau ar gyfer pob dysgwr.
- Mae prosesau i olrhain cynnydd disgyblion, i nodi anghenion ac i ddarparu cymorth yn gadarn ac yn effeithiol ym mhob achos bron. Er enghraifft, mae olrhain disgyblion unigol yn llywio proffiliau dosbarth ac yn nodi meysydd lle bo angen. Yn ei dro, mae hyn yn llywio mapiau ar gyfer darparu ymyrraeth ar draws yr ysgol. Mae'r arweinwyr yn monitro'r ymyriadau'n fedrus a gwerthusir yr effaith ar gynnydd y disgyblion. Mae meini prawf mynediad ac ymadael clir ar waith ar gyfer pob rhaglen ymyrraeth. Mae'r ymyriadau'n amserol, i ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni ac i'r rhai sy'n fwy abl a thalentog (MAT). Mae'r arweinydd systemau yn gwerthuso'r holl ddeilliannau. Mae asesiadau athrawon yn gyson ac yn gywir fel y cadarnhawyd gan y cynghorydd her yn ystod y broses gymedroli.

|                                |
|--------------------------------|
| <b>Tystiolaeth a Ystyriwyd</b> |
|--------------------------------|

- Data perfformiad yr ysgol gyfan dros y tair blynedd ddiwethaf.
- Data ar lefel disgyblion unigol gan gynnwys perfformiad grwpiau penodol o ddisgyblion megis disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a data am werth a ychwanegwyd.
- Data am brofion llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.
- Adroddiad hunanwerthuso yr ysgol.
- Cynllun gwella yr ysgol.
- Adroddiad gwella ysgol blaenorol y cynghorydd her a nodiadau yr ymweliad â'r ysgol.
- Dogfennaeth yn ymwneud ag amcanion perfformiad y pennaeth a monitro'r cynnydd o'i chymharu ag amcanion.
- Gwybodaeth uniongyrchol am fywyd a gwaith yr ysgol.

### Argymhellion

- Datblygu ac ymwreiddio gwaith yr ysgol ar ddylunio'r cwricwlwm gan roi ystyriaeth dda i'r egwyddorion addysgeg ar gyfer dysgu dan do a dysgu yn yr awyr agored.
- Sicrhau bod dosbarthiadau a meysydd dysgu yn cefnogi darpariaeth a chyflawniad gwahaniaethol er mwyn diwallu'r anghenion a nodir a sicrhau gwelliannau
- Datblygu swyddogaethau'r tîm arweinyddiaeth newydd ymhellach gydag

### Cam 3 – Y Categori Cymorth

Categori cymorth cyffredinol yr ysgol yw: Gwyrdd

| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3  |
|-------|-------|--------|
| Amh.  | A     | Gwyrdd |

*Dyfarniad dros dro, hyd nes y bydd y Gwiriad Cenedlaethol wedi ei gwblhau, yw'r dyfarniad yng Ngham 2 a'r penderfyniad a wnaed yng Ngham 3.*

## Atodiad D

### Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

#### Drafft – i'w ddiweddarau yn dilyn ymgynghoriad

##### Enw'r cynnig:

Cynnig i sefydlu dosbarth adnoddau dysgu yn Ysgol Gynradd Tremaen ar gyfer uchafswm o wyth disgybl sydd ag anhwylderau'r sbectwm awtistig o 1 Medi 2022.

##### Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?

Y Cabinet

##### Pwy sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cynnig?

Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr

**Nodau ac amcanion:** Y ddarpariaeth ar gyfer anhwylderau'r sbectwm awtistig yn Ysgol Gynradd Tremaen.

**Camau gweithredu allweddol:** Gweithdrefn statudol i sefydlu dosbarth adnoddau dysgu yn Ysgol Gynradd Tremaen ar gyfer uchafswm o wyth disgybl sydd ag anhwylderau'r sbectwm awtistig o 1 Medi 2022.

**Y deilliannau disgwylidig:** Sefydlu dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag anhwylderau'r sbectwm awtistig gyda'r bwriad o'i weithredu ar 1 Medi 2022.

**Y rhai yr effeithir arnynt:** Staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni a'r gymuned.

**Oddeutu faint o bobl yr effeithir arnynt:** Minimol yw'r bobl yr effeithir arnynt gan y cynnig hwn. Bydd aelodau staff ychwanegol.

**Dyddiad disgwylidig y penderfyniad:** Mai 2022.

**Cwmpas/pwyslais yr asesiad:** Ystyrir y canlynol:

- Yr ansawdd a'r safonau presennol mewn addysg
- Targedau blaenoriaeth yr ysgol (yn y datganiad gweithredu)
- Y ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) bresennol
- Perthynas yr ysgol â rhanddeiliaid.
- Yr effaith bosibl ar ddisgyblion a staff yn sgil cyflwyno'r cynnig.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned.

- Yr effaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig (a amlinellir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb).

#### Data a/neu ymchwil berthnasol:

- Mae'r tabl canlynol yn darparu amcanestyniad pum mlynedd o'r boblogaeth ddisgyblion ar gyfer Ysgol Gynradd Tremaen.

| Blwyddyn<br>/Year | M1<br><br>Oed /<br>Age<br>2 -<br>3 | M2<br><br>Oed /<br>Age<br>3 - 4 | D<br><br>Oed /<br>Age<br>4 - 5 | 1<br><br>Oed /<br>Age<br>5 - 6<br><br>98% | 2<br><br>Oed /<br>Age<br>6 - 7<br><br>98% | 3<br><br>Oed /<br>Age<br>7 - 8<br><br>93% | 4<br><br>Oed /<br>Age<br>8 - 9<br><br>97% | 5<br><br>Oed /<br>Age<br>9 - 10<br><br>96% | 6<br><br>Oed /<br>Age<br>10 -<br>11<br><br>98% | Cyfanswm<br>/Total<br><br>2-11 | Cyfanswm<br>/Total<br><br>4-11 |
|-------------------|------------------------------------|---------------------------------|--------------------------------|-------------------------------------------|-------------------------------------------|-------------------------------------------|-------------------------------------------|--------------------------------------------|------------------------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|
| 2021              | 12                                 | 54                              | 70                             | 58                                        | 39                                        | 58                                        | 63                                        | 62                                         | 58                                             | 474                            | 408                            |
| 2022              | 11                                 | 56                              | 54                             | 69                                        | 57                                        | 36                                        | 56                                        | 60                                         | 61                                             | 460                            | 393                            |
| 2023              | 10                                 | 59                              | 56                             | 53                                        | 67                                        | 53                                        | 35                                        | 54                                         | 59                                             | 446                            | 377                            |
| 2024              | 10                                 | 59                              | 59                             | 55                                        | 52                                        | 63                                        | 51                                        | 34                                         | 53                                             | 436                            | 367                            |
| 2025              | 10                                 | 59                              | 59                             | 58                                        | 54                                        | 48                                        | 61                                        | 49                                         | 33                                             | 431                            | 362                            |
